Ministry of Justice

**Arglwydd Timpson**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol,
HMP Brynbuga a HMP/YOI Prescoed,
47 Maryport Street,
Brynbuga,
Sir Fynwy,
NP15 1XP

Cyf MoJ: 120345

3 Ionawr 2025

Annwyl Gadeirydd,

**HMP BRYNBUGA A HMP/YOI PRESCOED: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2024**

Diolch i chi am adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar HMP Brynbuga a HMP/YOI Prescoed. Rwyf wedi darllen eich adroddiad yn ofalus. Rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am eich gwaith caled yn casglu ynghyd yr arsylwadau defnyddiol yn yr adroddiad. Gwerthfawrogir hyn yn enwedig o gofio eich bod yn parhau i fod â nifer o swyddi gwag.

Roeddwn yn drist iawn o ddarllen bod dau garcharor wedi marw yn ystod y flwyddyn adrodd. Hoffwn gynnig fy nghydymdeimlad dwys â'u ffrindiau a theuluoedd. Rwy'n croesawu bod y Bwrdd yn adrodd y cynigiwyd cymorth i garcharorion a swyddogion yn dilyn y ddwy farwolaeth a bod ymchwiliad y PPO i un o'r marwolaethau wedi casglu bod y claf wedi derbyn gofal o safon uchel.

Gwerthfawrogaf bryderon y Bwrdd am ail-gategoreiddio carcharorion Carcharu er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP). Ar 17 Gorffennaf 2023, cyfarwyddodd yr Ysgrifennydd Gwladol newid i'r meini prawf ar gyfer asesu carcharorion sy'n treulio dedfrydau amhenodol (ISP), gan gynnwys carcharorion IPP, ar gyfer bod yn addas ar gyfer carchardai agored. Os yw carcharor yn aros am benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a fydd argymhelliad y Bwrdd Parôl i'w symud i garchar agored yn cael ei dderbyn neu beidio, bydd hyn yn cael ei hystyried i dan y meini prawf newydd a nod yr Ysgrifennydd Gwladol yw eu hysbysu o'r penderfyniad o fewn 28 diwrnod calendr. Fel rhan o hyn, canolbwyntiwyd adnoddau pellach ar argymhellion y Bwrdd Parôl ar gyfer carchardai agored i sicrhau y gwneir penderfyniad cyn gynted â phosib. Nid Gweinidogion yn unig sydd â'r awdurdod i benderfynu, gall swyddogion gyda chyfrifoldeb dirprwyol hefyd wneud penderfyniadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol gan felly gyflymu'r broses. Mae Swyddogion HMPPS wrthi'n edrych ar fesurau pellach i ddatblygu'r broses o ystyried carchardai agored ar gyfer Carcharorion sy'n treulio Dedfrydau Amhenodol i sicrhau, os credir eu bod yn addas ar gyfer carchar agored, y gwneir y penderfyniadau hyn yn ddi-oed ac effeithiol.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i barhau i ganolbwyntio ar adsefydlu carcharorion IPP drwy Gynllun Gweithredu wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2024. Mae'r Cynllun Gweithredu diwygiedig yn rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau 'rheng flaen' effeithiol gan roi arweiniad cliriach ar sut y gall systemau a phrosesau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) gynorthwyo carcharorion sy'n treulio dedfrydau IPP yn effeithiol i achub ar bob cyfle i gael eu rhyddhau'n gynaliadwy a therfynu amodau eu trwydded. Er mai'r penderfyniad iawn oedd dileu dedfrydau IPP, gobeithio eich bod yn deall na allwn wneud unrhyw beth a fyddai'n bygwth diogelwch y cyhoedd. Gallaf eich sicrhau bod y Llywodraeth yn ymrwymedig

**T** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

i weithio gyda sefydliadau a grwpiau ymgyrchu i sicrhau y cymerir y camau priodol i gefnogi pob carcharor sy’n dal i dreulio dedfryd IPP.

Rwy’n cydnabod eich pryderon am Fyrddau Parôl. Er mai’r Bwrdd Parôl Annibynnol sy’n gyfrifol am restru gwrandawiadau’r Bwrdd Parôl, mae HMPPS wedi cymryd nifer o gamau i leihau’r pwysau ar y ciw rhestru. Arweiniodd hyn at leihau’r ciw o bron i 40% ers Mawrth 2023.

Gan droi at bryderon y Bwrdd am dderbyn cymorth ar gyfer gofal cymdeithasol personol, mae’r carchar yn gweithio’n agos gyda’r darparwyr sy’n gyfrifol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chafwyd cydweithio llwyddiannus gyda Chyngor Sir Fynwy (MCC) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar ddarparu gofal i rai gyda phroblemau symudedd a’r boblogaeth hŷn. Yn Ebrill 2023, penderfynodd MCC gynyddu’r staff sy’n gweithio yn yr Ystâd Ddiogel, i gynnwys 0.6 Uwch-Ofalwr cyfwerth ag amser llawn, i gynorthwyo’r cohort o Gyfeillion Mewnol yn HMP Brynbuga a rhoi mynediad cyfyngedig at ofal personol a chymorth i rai ag anghenion cymwys. Os yw angen am ofal a chymorth ychwanegol yn cael ei adnabod, mae angen gwneud cais i dîm ‘Gofal yn y Cartref’ ehangach yr Awdurdod Lleol yn ardal Brynbuga.
Mae HMP Brynbuga a HMP/YOI Prescoed yn monitro atgyfeiriadau gofal cymdeithasol y carchar i’r Awdurdod Lleol ac mae gan bobl yn y carchar hefyd hawl i hunangyfeirio am asesiad.

Rwy’n cydnabod y pryderon a godwyd o gwmpas staffio gofal iechyd ac yn falch o nodi bod pob swydd wedi’i llenwi dros y 12 mis diwethaf a bod gan y darparwr iechyd bellach gyflenwad staffio llawn o fewn y gyllideb staffio bresennol. Cwblhawyd ymarfer cwmpasu yn 2022 a benderfynodd nad oedd angen unrhyw gynnydd pellach mewn staffio bryd hynny, ond mae staffio’n parhau i gael ei adolygu’n barhaus. Byddai angen cyllid ychwanegol a lle swyddfa priodol pe bai’r tîm yn ehangu. Hoffwn sicrhau’r Bwrdd y bwriedir cwblhau ymarfer cwmpasu pellach cyn y cynnydd mewn carcharorion sydd i ddigwydd yn 2025.

Er yn cydnabod yr heriau a nodir yn yr adroddiad o ran darparu lleoliadau gwaith, roeddwn yn falch o ddarllen eich sylwadau bod HMP/YOI Prescoed yn parhau i wneud y mwyaf o bob cyfle gwaith a gyflwynir gan lwyddo i ddarparu lleoliadau gwaith a chanlyniadau cyflogaeth da i garcharorion. Roedd yn galonogol darllen bod gwaith caled arweinydd cyflogaeth y carchar yn y gofod hwn wedi cael ei gydnabod ar ôl ennill Gwobr Uwch-gynhadledd Datgloi 2023 am gyflawniad eithriadol.

Nodaf eich bod wedi codi pedwar mater ar gyfer sylw HMPPS a rhoddir ymateb iddynt yn yr atodiad amgaeedig.

Rwyf i a’r Arglwydd Ganghellor yn gwerthfawrogi rôl werthfawr aelodau’r Byrddau Monitro Annibynnol ar draws yr ystâd ac yn hynod ddiolchgar am eich gwaith caled parhaus ar ran HMP Brynbuga a HMP/YOI Prescoed.



**Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

**Atodiad**

**HMP BRYNBUGA A HMP/YOI PRESCOED: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2024**

**Sylwadau HMPPS ar faterion a godir yn yr adroddiad**

**Swyddogion Prawf**
Gwerthfawrogwn fod problem barhaus o ran argaeledd Swyddogion Prawf a bod recriwtio a chadw staff felly'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y Gwasanaeth Prawf. Rydym wedi lansio amryw o fesurau i sicrhau goruchwyliaeth fwy trylwyr, recriwtio mwy o staff a lleihau llwythi achosion. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn parhau i recriwtio drwy ein hymgyrchoedd canolog i gyflawni ein hymrwymiad i recriwtio o leiaf mil o swyddogion prawf newydd dan hyfforddiant erbyn Mawrth 2025.

Rhwng 30 Mehefin a 30 Mehefin 2024, gwelodd y Gwasanaeth Prawf gynnydd o 467 o staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) (2.3%). Dros yr un cyfnod, gwelodd y Gwasanaeth gynnydd yn y rhan fwyaf o'i raddfeydd swydd, gan gynnwys Swyddogion Prawf (11.5%) a Bandiau Eraill 4-6 (16.1%). Dros yr un cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2024, gwelodd y Gwasanaeth gynnydd o 19% mewn Swyddogion Prawf Band 4 yng Nghymru.

Mae lefelau staffio Swyddogion Prawf Cymru wedi gwella'n arw ac mae'r Gwasanaeth wedi recriwtio mwy o Swyddogion Prawf dan hyfforddiant gan wella ein lefelau staffio mewn carchardai ac yn y gymuned. Roedd HMP Brynbuga yn brin o'i darged o un Swyddog Prawf ers misoedd ond gan lwyddo i sicrhau staffio llawn erbyn diwedd Awst. Felly hefyd roedd HMP/YOI Prescoed yn brin o'i darged o 1.2 FTE ond gan lwyddo i sicrhau staffio llawn erbyn diwedd Medi. Yn gadarnhaol, mae'r sefyllfa gyda Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn gryf yn y ddau garchar a mwy o recriwtio ar y gweill gan y carchar yn HMP/YOI Prescoed. Yn HMP Brynbuga, roedd y carchar wedi gor-recriwtio Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar i gefnogi'r prinder Swyddogion Prawf.

**Eiddo Carcharorion**
Mae HMPPS yn nodi pryderon y Bwrdd am eiddo pan fydd carcharor yn trosglwyddo o un carchar i'r llall. Rhaid i'r pwyslais barhau i fod ar garcharorion yn cydymffurfio â'r uchafswm rheolaeth feintiol oherwydd dylai unrhyw eiddo o fewn yr uchafswm hwn drosglwyddo gyda'r carcharor. Mae hyn yn cynnwys eitemau wedi eu heithrio o reolaeth feintiol, fel papurau cyfreithiol. Nid yw'n bosib trosglwyddo unrhyw eiddo ychwanegol y gallai'r carcharor fod wedi'i gasglu sydd dros y rheolaeth feintiol hon. Mae wedi bod yn ofynnol i garchardai, ers cyflwyno'r Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion, drosglwyddo unrhyw eitemau dros y rheolaeth feintiol o fewn 4 wythnos.
O'r blaen nid oedd unrhyw derfyn amser yn ei le. Mae HMPPS yn ymwybodol o'r problemau ymarferol gyda gweithredu'r Fframwaith Polisi Eiddo ac yn parhau i ystyried beth arall y gellir ei wneud yn lleol i wella hyn.

O ran y pryderon a godwyd gennych am gontract y Gwasanaethau Hebrwng Carcharorion (PECS), mae PECS yn adolygu cwynion yn rheolaidd mewn cyfarfodydd misol ffurfiol gyda chyflenwr PECS. Dros y 12 mis diwethaf ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan HMP Brynbuga na HMP/YOI Prescoed am golli eiddo o ganlyniad i gontract PECS.

**Staffio ar gyfer hebrwng ysbyty**
Mae HMP Brynbuga a HMP/YOI Prescoed yn cydnabod bod cynnydd wedi bod yn nifer yr hebryngiadau ysbyty byr rybudd. Mae'r rhain mewn ymateb i angen meddygol brys, sy'n effeithio ar weithredu'r gyfundrefn a gwaith allweddol. Fodd bynnag, mae'r carchardai'n parhau i weithio o dan Gynllun Rheoli Cyfundrefn ar gyfer eu lefel staffio gytunedig i helpu i liniaru effaith hyn.

**Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro**
Mae HMPPS yn croesawu cefnogaeth y Bwrdd i gynnig HMP Brynbuga ar gyfer absenoldebau drwy hebrwng ac yn ystyried sut i wneud hyn mewn ffordd asesu risg. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gan garcharorion gyfle i symud ymlaen yn ddiogel a phriodol drwy'r system garchardai. Gall mesurau fel hyn chwarae rôl werthfawr yn cefnogi'r amcanion hyn ac rydym yn ystyried opsiynau i gynorthwyo cynnydd diogel gan garcharorion.

Mae'r Bwrdd yn iawn i dynnu sylw at yr oedi cyson gyda chael mynediad at Ryddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL). Er bod HMPPS yn gweithio'n barhaus i wella mynediad, diogelwch y cyhoedd yw'r flaenoriaeth fwyaf o hyd. Mae ROTL yn destun asesiad risg cynhwysfawr sy'n gwerthuso'r unigolyn a lle fydd yr unigolyn yn gweithio. Mae hyn yn golygu ymgynghori ag asiantaethau perthnasol fel yr heddlu a'r Uned Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol, fel bo angen. Gweithiwn yn galed i symleiddio'r broses o fetio gweithleoedd a rhannu gwybodaeth yn well rhwng carchardai a rheolwyr troseddwyr yn y gymuned i sicrhau bod y broses yn rhedeg mor effeithlon â phosib.